Cofnodion cyfarfod hybrid y **CYNGOR** a gynhaliwyd nos Fercher, 20 Rhagfyr 2023, am 6.00pm.

**PRESENNOL**

Y Cynghorydd Ms J. L. McAlpine (Y Maer)

Y Cynghorwyr Mrs M. A. Blakeley-Walker, Mrs J. Chamberlain-Jones, Mrs E. M. Chard, Miss S. Fleming, R. James, K. R. Jones, B. Mellor, Mrs W. M. Mullen-James, Ms R. Roberts, Ms V. Roberts, A. J. Rutherford, D. Simmons, A. Walker a Miss C. L. Williams.

Mr G. J. Nickels – Clerc y Dref
Miss H. J. Windus – Dirprwy Glerc y Dref

**88. AGOR Y CYFARFOD AC YMDDIHEURIADAU**

Dechreuodd Caplan y Maer, y Parchedig Helen Gheorghiu Gould, y cyfarfod drwy arwain y rhai a oedd yn dymuno cyfranogi mewn gweddi.

Cyflwynwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr Mrs J. Butterfield YH MBE, Mrs J. M. Evans, S. Feeney a Mrs D. L. King.

**89. ETHOL CYNGHORYDD CYMUNED – WARD CEFNDY Y RHYL**

Cynghorodd Clerc y Dref yr etholwyd Miss Sonia Fleming i gynrychioli Ward Cefndy, a'i bod wedi llofnodi'r holl ddogfennau angenrheidiol ac fe'i croesawodd i'w chyfarfod cyntaf fel Cynghorydd.

**90. COFNODION**

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfodydd y Cyngor a'i bwyllgorau a ganlyn i'w cymeradwyo fel cofnodion cywir:

Cyfarfod y Cyngor - 15 Tachwedd 2023 - Cofnodion rhifau 77-87

Cynigiwyd gan y Cynghorydd Ms J. L. McAlpine ac eiliwyd gan y Cynghorydd Miss C. L. Williams a ***PHENDERFYNWYD*** *eu bod yn gofnod cywir.*

Y Pwyllgor Cynllunio - 15 Tachwedd 2023 - Cofnodion rhifau 26-28

Cynigiwyd gan y Cynghorydd Ms J. L. McAlpine ac eiliwyd gan y Cynghorydd D. Simmons a ***PHENDERFYNWYD*** *eu bod yn gofnod cywir.*

Y Pwyllgor Cynllunio - 6 Rhagfyr 2023 - Cofnodion rhifau 29-32

Cynigiwyd gan y Cynghorydd Ms J. L. McAlpine ac eiliwyd gan y Cynghorydd D. Simmons a ***PHENDERFYNWYD*** *eu bod yn gofnod cywir.*

Cadarnhau neu fel arall:

Y Pwyllgor Cyllid a Materion Cyffredinol - 6 Rhagfyr 2023 - Cofnodion rhifau 51-64

Cynigiwyd gan y Cynghorydd A. J. Rutherford ac eiliwyd gan y Cynghorydd A. R. James a ***PHENDERFYNWYD*** *eu bod yn gofnod cywir a chadarnhau eu gweithredu.*

## 91. ADRODDIAD Y MAER

Cyflwynodd y Maer fanylion y digwyddiadau y bu hi a'r Dirprwy Faer yn bresennol ynddynt yn ystod y mis diwethaf (dosbarthwyd copi gyda'r agenda) a chyfeiriodd yn benodol at achlysur goleuo'r goleuadau Nadolig yn y Rhyl a chyngerdd Llinell Bywyd i Blant Chernobyl ym Mhrestatyn, gyda'r ddau yn ddigwyddiadau gwych.

Cyfeiriodd y Dirprwy Faer at gyngerdd Nadolig elusennol Cyngor Tref Abergele a dywedodd ei bod wedi mwynhau'r noson yn fawr.

***PENDERFYNWYD*** *derbyn yr adroddiad.*

## 92. CYFLWYNIAD: COFNOD BLWYDDYN YN SWYDD Y MAER

Cynghorodd y Maer, gan nad oedd y Cynghorydd Mrs D. L. King yn bresennol, y byddai'r eitem hon yn cael ei gohirio tan gyfarfod nesaf y Cyngor.

## 93. AWDURDODI TALIADAU / YCHWANEGIADAU I'R RHESTR CYFLENWYR CYMERADWY (ATODLEN B)

Ymhellach i gofnod rhif 143 cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 15 Mawrth 2017, ac yn unol â rheoliadau ariannol mabwysiedig y Cyngor, cyfeiriodd y Cadeirydd at Atodlen B a gyflwynwyd gan Glerc y Dref (rhestr o daliadau nad ydynt yn daliadau rheolaidd i'w rhyddhau yn ystod y mis nesaf) (dosbarthwyd gyda'r agenda).

| Rhif taleb | Cyflenwr | Manylion y cyflenwad | Swm £ |
|---|---|---|---|
| 1749 | Sandra Williams | Gwasanaeth cyfieithu | 250.14 |
| 1750 | Delwedd Ltd | Tanysgrifiadau Office 365 – 4 aelod o staff | 593.28 |
| 1751 | GoToMyPC | 3 tanysgrifiad i'r staff i alluogi gweithio gartref | 626.40 |
| 1752 | Cyngor Sir Ddinbych | Rhent y Gerddi Coffa | 13.50 |
| 1753 | Cyngor Sir Ddinbych | Rhent cysgodfan bws Tir Morfa | 1.00 |
| | **Cyfanswm Atodlen B** | | **£10,538.69** |

***PENDERFYNWYD*** *cymeradwyo'r atodlen taliadau a'u llofnodi gan ddau gynghorydd.*

## 94. EITEM GAN AELOD: COELCERTH AC ARDDANGOSFA TÂN GWYLLT Y RHYL

Cynghorydd Clerc y Dref fod y Cynghorydd a oedd yn dymuno codi'r mater am y goelcerth a'r arddangosfa tân gwyllt wedi tynnu'r eitem yn ôl bellach.

## 95. CYFARFOD ARBENNIG ARFAETHEDIG

Ymhellach i gofnod rhif 63 cyfarfod y Pwyllgor Cyllid a Materion Cyffredinol a gynhaliwyd ar 6 Rhagfyr 2023, adroddodd Clerc y Dref fod yr ymgynghorwyr a benodwyd gan Gyngor Sir Ddinbych i werthuso cynigion i adleoli Canolfan Groeso'r Rhyl ac Amgueddfa'r Rhyl wedi gofyn am gyfarfod â'r Cynghorwyr Tref ym mis Ionawr 2024.

Awgrymodd Clerc y Dref gynnal Cyfarfod Arbennig y Cyngor ddydd Mawrth, 9 Ionawr am 4.00pm, i gael trafod gyda'r ymgynghorwyr.

***PENDERFYNWYD*** *y dylai' Clerc y Dref fwrw ymlaen gyda galw'r Cyfarfod Arbennig, yn fwyaf dymunol am 5.00pm, ddydd Mawrth, 9 Ionawr.*

## 96. YMGYNGHORIAD: CYNGOR SIR DDINBYCH – GWASANAETH CASGLU GWASTRAFF AMGEN ARFAETHEDIG

Adroddodd Clerc y Dref y derbyniwyd yr ohebiaeth uchod (a ddosbarthwyd gyda'r agenda) yn rhoi gwahoddiad i'r Cadeirydd/Maer a'r Clerc i un o dri chyfarfod arfaethedig i ystyried gwasanaethau casglu sbwriel mewn dull amgen.

***PENDERFYNWYD*** *y byddai'r Maer a'r Clerc yn mynd i'r cyfarfod am 5.00pm nos Fercher, 7 Chwefror 2024 yn Ysgol Glan Clwyd, ac y byddai'r Dirprwy Glerc yn gofalu am y Pwyllgor Cyllid a Materion Cyffredinol i'w gynnal yr un noson.*

**[Datganodd y Cynghorydd B. Mellor fuddiant sy'n rhagfarnu yn yr eitem uchod, oherwydd ei swydd fel aelod o Gabinet Cyngor Sir Ddinbych gyda hyn yn rhan o'i bortffolio, a gadawodd y Siambr ac ni fu'n rhan o'r drafodaeth na'r pleidleisio ar yr eitem.]**

## 97. CANSLO CYFARFOD

Cynghorodd y Maer fod y cyfarfod y Pwyllgor Cyllid a Materion Cyffredinol a oedd i'w gynnal ddydd Mercher, 3 Ionawr 2024, yn golygu nad oedd fawr ddim amser i'r swyddogion baratoi papurau, o gofio gwyliau'r Nadolig a'r Flwyddyn Newydd, a gofynnodd i'r aelodau ystyried canslo'r cyfarfod.

***PENDERFYNWYD*** *canslo cyfarfod y Pwyllgor Cyllid a Materion Cyllid a oedd i'w gynnal ar 3 Ionawr 2024.*

## 98. EITHRIO'R WASG A'R CYHOEDD

***PENDERFYNWYD*** *eithrio'r Wasg a'r Cyhoedd o'r cyfarfod wrth ystyried yr eitemau busnes a ganlyn, yn unol ag Adran 1(2) Deddf Cyrff Cyhoeddus (Mynediad i Gyfarfodydd) 1960, ar sail cyfrinachedd.*

## 99. ADRODDIAD RHYDDFREINIWR ANRHYDEDDUS

Yn unol â pholisi mabwysiedig y Cyngor Tref, dywedodd y Maer nad oedd unrhyw enwebiadau wedi'u cyflwyno.

## 100. CYNGOR SIR DDINBYCH – CAIS AM GYFRANIAD ARIANNOL

Adrododd y Maer y derbyniwyd yr ohebiaeth uchod gan Gydlynydd Strydwedd Cyngor Sir Ddinbych (a ddosbarthwyd gyda'r agenda) yn gofyn i'r aelodau ystyried cyfrannu traean (£1,666) at gost adnewyddu'r nodwedd rhaeadr wrth gylchfan Tŵr y Cloc, gyda Chyngor Sir Ddinbych a Rhyl BID yn cyfrannu'r ddau draean arall.

***PENDERFYNWYD*** *cymeradwyo'r cais, gyda'r arian i'w gymryd o Gronfeydd Wrth Gefn y Cyngor Tref.*

## 101. Y GYLLIDEB FLYNYDDOL / CYNLLUN ARIANNOL PUM MLYNEDD

Ymhellach i gyfarfod y Pwyllgor Cyllid a Materion Cyffredinol a gynhaliwyd ar 6 Rhagfyr 2023, gofynnodd Clerc y Dref i'r aelodau gymeradwyo argymhelliad cyllideb y Pwyllgor Cynllunio Strategol a Gweithredol yn ffurfiol i godi praesept o £555,594 ar Gyngor Sir Ddinbych, sy'n cynrychioli praesept £57.85 i eiddo Band D, nad yw wedi newid o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol (dosbarthwyd yr adroddiad gyda'r agenda).

Cynghorodd Clerc y Dref fod y Cyngor Tref wedi'i hysbysu am ddiwygio nifer sail yr eiddo perthnasol ers gwneud yr argymhelliad, a oedd wedi cynyddu o 9,611 i 9,890, a oedd yn rhoi dau opsiwn, fel yr eglurwyd yn yr adroddiad.

***PENDERFYNWYD*** *fod yr aelodau'n argymell i'r Cyngor:*

*(i)* *~~codi praesept o £555,594 ar Gyngor Sir Ddinbych.~~*

*Cymeradwyo Dewis 1 fel bod y Cyngor yn cynnal y ffi Band D ar lefel 2023/24, sef £57.85 yr eiddo (yr un fath ag yn 2023/24). Bydd hyn yn cynhyrchu £16,181 ychwanegol, sy'n golygu y bydd y Praesept ar Gyngor Sir Ddinbych yn cynyddu o'r £555,954 a argymhellir i £572,094. Bydd y £16,181 ychwanegol yn cael ei ychwanegu'n ddarpariaethol i'r gyllideb Wrth Gefn.*

*(ii)* *cymeradwyo'r Polisi Pennu Cylideb a awgrymwyd, fel y nodwyd yn yr adroddiad.*

*(iii)* *cymeradwyo amcangyfrifon yr incwm a'r gwariant ym mlwyddyn ariannol 2023/24 fel y nodwyd yn Atodiad 1 yr adroddiad.*

*(iv)* *cymeradwyo'r gwariant cyllideb a argymhellir ar gyfer 2024/25 fel y nodwyd yn Atodiad 2 yr adroddiad.*

***PENDERFYNWYD YMHELLACH*** *y byddai' Clerc y Dref yn cyflwyno adroddiad i gyfarfod y Cyngor ym mis Ionawr 2024 ynghylch sefydlu pwyllgor bach i ystyried yr holl geisiadau am gyllid gan Gyngor Sir Ddinbych yn y dyfodol.*

## 102. GWYLIAU'R NADOLIG – DIRPRWYO PWERAU GWEITHREDOL

Gofynnodd y Maer i'r aelodau gymeradwyo diprwyo pwerau gweithredol i Glerc y Dref, mewn ymgynghoriad â'r aelodau isod, yn ystod y cyfnod rhwng 21 Rhagfyr 2023 a 9 Ionawr 2024.

| | | |
|---|---|---|
| Materion Dinesig | - | Y Maer a/neu'r Dirprwy Faer |
| Materion Cynllunio | - | Cadeirydd a/neu Is-gadeirydd y Pwyllgor Cynllunio |
| Y Pwyllgor Cynllunio Strategol a Gweithredol | - | Cadeirydd a/neu Is-gadeirydd y Pwyllgor |
| Unrhyw fater arall | - | Cadeirydd a/neu Is-gadeirydd y Pwyllgor Cyllid a Materion Cyffredinol |

***PENDERFYNWYD*** *cadarnhau'r trefniadau.*

**103. DIWEDDU'R CYFARFOD**

Gan nad oedd rhagor o eitemau busnes cyhoeddodd y Maer ddiwedd y cyfarfod.

Maer: ……..…………………..

Dyddiad: …..……………………..